

Dod â chydymaith i'ch asesiad PIP

Rydym yn eich annog i ddod â chydymaith gyda chi i'ch asesiad PIP.

Gall cydymaith fod, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, aelod o'r teulu, ffrind, eiriolwr, gweithiwr allweddol, Gweithiwr Cymdeithasol neu Nyrs Gymunedol.

Gallant gynnig cefnogaeth foesol i chi a rhannu gwybodaeth ychwanegol am sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch o ddydd i ddydd.

Os ydych yn cael asesiad ffôn neu fideo, gellir ychwanegu eich cydymaith at yr alwad.



Dyma ychydig o wybodaeth i chi a'ch cydymaith ei darllen cyn eich asesiad.

- Mae'n bwysig bod y gweithiwr iechyd proffesiynol yn clywed gennych yn uniongyrchol yn ystod yr asesiad, felly er y gall eich cydymaith gyfrannu at y drafodaeth, ni ddylai siarad ar eich rhan.
- Ar ddechrau eich asesiad, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn am eich caniatâd i'ch cydymaith fod yn bresennol ac i gyfrannu at yr asesiad. Byddant hefyd yn ceisio sefydlu natur y berthynas rhyngoch chi a'ch cydymaith – er enghraifft a ydynt yno i gynnig cefnogaeth foesol, neu a oes ganddynt ddealltwriaeth well o'ch cyflwr.
- Er ei fod yn hynod annhebygol, gall y gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i gydymaith adael asesiad os yw'n credu bod ei bresenoldeb yn aflonyddgar, neu os oes ganddo reswm i gredu bod cydymaith yn mynychu am reswm arall heblaw am eich cefnogi.

Gwybodaeth i'w rhannu gyda'ch cydymaith cyn yr asesiad

- Bydd presenoldeb a chyfranogiad eich cydymaith yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad asesu. Yn yr adroddiad hwnnw, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol hefyd yn ei gwneud yn glir pa wybodaeth a ddarparwyd gennych chi a beth a ddarparwyd gan eich cydymaith.
- Os yw eich cydymaith yn credu bod gwybodaeth bwysig am sut mae'ch cyflwr yn effeithio ar eich bywyd bob dydd wedi'i gadael allan, dylai gyfrannu yn ystod yr asesiad. Efallai y bydd

y gweithiwr iechyd proffesiynol yn annog eich cydymaith i helpu i ateb rhai cwestiynau os oes angen.

- Cyn belled â'ch bod yn rhoi caniatâd, gall eich cydymaith ofyn am gael siarad â'r gweithiwr iechyd proffesiynol ar wahân ar ddiwedd yr asesiad os yw am ychwanegu rhagor o fanylion.
- Os bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn ichi wneud rhai symudiadau corfforol, ni all eich cydymaith helpu. Fodd bynnag, cyn belled â'ch bod chi a'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn hapus gyda hynny, gall eich cydymaith fod yn bresennol drwy'r amser.
- Mae'ch cydymaith yn rhydd i wneud nodiadau ac nid oes angen rhannu'r rhain â'r gweithiwr iechyd proffesiynol, Capita na'r DWP.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddod â chydymaith i'ch asesiad PIP, cysylltwch â'n tîm [yma](#).